# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 (p6)

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 20 - Adroddiadau ar y Trafodion

#### 1. Cefndir

Mae Rheol Sefydlog 20 yn darparu ar gyfer cyhoeddi cofnod gair-am-air o Gyfarfodydd Llawn, a chyhoeddi cofnodion o drafodion cyhoeddus pob Pwyllgor ac Is-bwyllgor.

#### 2. Y Rheol Sefydlog Newydd

Yn yr atodiad, amlinellir rhai o'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Rheol Sefydlog bresennol i ateb gofynion y Mesur, a cheir cwestiynau lle y bo opsiynau ar gael.

Pan fydd y Pwyllgor wedi cytuno ar gynnwys y Rheol Sefydlog newydd, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog newydd i'r Pwyllgor gytuno arni.

#### 3. Darpariaethau'r Mesur

Mae Cymal 31(6) Mesur Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheolau sefydlog ddarparu ar gyfer adrodd ar drafodion y Cynulliad, a thrafodion cyhoeddus ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau ac ar gyfer cyhoeddi'r adroddiadau hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfodydd.

#### 4. Pwyntiau i'w nodi

Rydym wedi cael ar ddeall bod Pwyllgor y Ty wedi gofyn am bapur ynghylch y ddarpariaeth bresennol ar gyfer Cofnod y Trafodion a'r goblygiadau o ran adnoddau. Ymysg materion eraill, mae'n debygol y bydd y papur yn ymdrin â chostau cyfieithu cyfraniadau a wnaed yn Saesneg i Gymraeg. Mae'n bosibl y bydd Aelodau yn dymuno aros i glywed canlyniad unrhyw drafodaethau gan Bwyllgor y Ty cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ar y rhan hon o'r rheol sefydlog.

#### 5. Camau i'w cymryd

Cytuno ar yr egwyddorion i'w cynnwys yn y Rheol Sefydlog hon fel y'u hamlinellir yn yr atodiad. Yna, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog ddiwygiedig i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Uned Weithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006